IG6(o) - Federation of Small Businesses

**FfBB Cymru**
**Chwefror 2009**

## Papur ar gyfer Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, Cynulliad Cenedlaethol Cymru : Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) yr Iaith Gymraeg

### Rhagarweiniad

1.Ffederasiwn y Busnesau Bach (FfBB) yw sefydliad busnes mwyaf y DU, ac mae'n cynrychioli buddiannau dros 215,000 o aelodau ar draws y DU, gyda dros 10,000 ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae aelodaeth FfBB yn un amrywiol ac felly'n adlewyrchiad cadarn o fwyafrif BBaCh yng Nghymru. Yr ydym yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgor hwn, oherwydd yr ydym yn teimlo, am fod mwyafrif llethol y busnesau yng Nghymru yn BBaCh, ei bod hi'n bwysig fod cynrychiolaeth gref i farn y sector hwn.

2.Dadansoddiad o aelodaeth FfBB Cymru, a gymerwyd o arolwg Cymru, Mawrth 2008:

Math o adeilad y lleolir y prif fusnes:

| | Cymru % | Cyfartaledd y DU % |
|---|---|---|
| Cartref | 26.7 | 32.7 |
| Uned fanwerthu / siop | 24.9 | 19.4 |
| Swyddfa | 13.2 | 15.1 |
| Ffatri, gweithdy, uned fusnes, iard waith | 21.0 | 22.3 |
| Arall | 14.2 | 10.5 |

Lleoliad adeiladau'r prif fusnes:

| | Cymru % | Cyfartaledd y DU % |
|---|---|---|
| Canol Dinas | 4.5 | 9.3 |
| Canol tref | 21.1 | 17.4 |
| Canol pentref, fferm, ardal wledig | 36.6 | 29.0 |
| Parc busnes / ystâd ddiwydiannol | 21.6 | 19.8 |
| 'Y Stryd Fawr'' / ardal fasnachol/breswyl mewn maestref | 16.3 | 24.6 |

Diwydiant y prif fusnes:

| | Cymru % | Cyfartaledd y DU % |
|---|---|---|
| Amaeth, coedwigaeth, pysgota | 3.4 | 3.0 |
| Mwyngloddio a Chwarela | 0.3 | 0.5 |
| Cynhyrchu | 7.1 | 9.9 |
| Cyflenwad trydan, nwy a dŵr | 1.1 | 0.6 |
| Adeiladu a gweithgareddau'n sy'n gysylltiedig ag adeiladu | 12.2 | 11.4 |
| Gwerthu, cynnal a chadw, a thrwsio cerbydau modur a manwerthu tanwydd | 2.4 | 2.7 |

| | | |
|---|---|---|
| Masnach cyfanwerthu | 4.2 | 3.3 |
| Manwerthu | 21.7 | 17.1 |
| Gwestai, bwytai, bariau ac arlwyo | 9.0 | 7.2 |
| Trafnidiaeth a gweithgareddau sy’n gysylltiedig â thrafnidiaeth | 5.8 | 5.1 |
| Gwasanaethau post, negesydd a thelathrebu | 0.3 | 0.5 |
| Gwasanaethau ariannol | 2.9 | 3.7 |
| Gweithgareddau ystâd real | 1.6 | 2.1 |
| Rhentu peiriannau, offer, nwyddau personol a thŷ | 0.5 | 0.4 |
| Gweithgareddau cyfrifiadur a chysylltiedig | 2.6 | 4.1 |
| Gweithgareddau ymchwil a datblygu | 1.1 | 0.7 |
| Gwasanaethau busnes | 7.4 | 12.8 |
| Addysg | 2.4 | 2.8 |
| Iechyd a gwaith cymdeithasol | 3.7 | 3.6 |
| Gwasanaethau personol | 6.6 | 5.7 |
| Arall | 3.7 | 2.8 |

Dibyniaeth ar y fasnach dwristiaeth:

| | Cymru % | Cyfartaledd y DU % |
|---|---|---|
| Yn dibynnu’n uniongyrchol ar y fasnach dwristiaeth | 15.4 | 8.3 |
| Yn dibynnu’n anuniongyrchol ar y fasnach dwristiaeth | 18.9 | 11.6 |
| Ddim yn ddibynnol ar y fasnach dwristiaeth | 65.7 | 80.1 |

## Yr Iaith Gymraeg a BBaCh

3.Safbwynt Ffederasiwn y Busnesau Bach parthed cryfhau’r iaith mewn busnesau bach a chanolig yw nad ydym ni’n credu y buasai ceisio cryfhau’r iaith trwy ddeddfwriaeth bellach yn gam cadarnhaol i’r busnesau yma, ac yn wir, yn ystod ein hymgynghori â’n haelodaeth, teimlwn fod gennym dystiolaeth i ddangos y buasai mewn gwirionedd yn niweidiol i’r iaith ei hun, ynghyd â chael effaith ar BBaCh a allai fod yn negyddol.

4.Y realiti yw mai microfusnesau yw mwyafrif llethol y busnesau yng Nghymru; yn wir mae 27% o aelod-fusnesau FfBB wedi’u lleoli yn y cartref. Gallai hyn olygu y buasai deddfwriaeth ychwanegol yn troi dwyieithrwydd o fod yn fantais gystadleuol ddichonol i faich negyddol. Os mai dim ond y darparwyr mawr ym maes gwasanaethau cyhoeddus y targedir, yna mae angen agor dialog rhwng y llywodraeth a BBaCh, yn gofyn sut yr ydym yn cryfhau’r berthynas rhwng mwyafrif y busnesau yng Nghymru a’r iaith Gymraeg.

5.Canfu arolwg gan FfBB yn gynharach eleni fod 28% o’r rhai hynny a arolygwyd yn gallu delio â chwsmeriaid / â’i gilydd yn Gymraeg, ac roedd 12% yn defnyddio arwyddion / llenyddiaeth ddwyieithog, ond dim ond 1% oedd yn rhan o gynllun iaith. O ychwanegu at hyn yr ymatebodd 66% nad oeddent yn ymwybodol o’r gwasanaethau a gynigir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg na Mentrau Iaith, yna mae llawer o botensial dihysbydd ar gyfer y defnydd o’r Gymraeg mewn busnes.

6.Buasem yn croesawu cefnogaeth i BBaCh sy'n annog y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn busnes, am mai dim ond 11% o fusnesau a nododd Ddeddfwriaeth Lywodraethol fel yr un mesur a fuasai'n fwyaf tebygol o gynhyrchu defnydd o'r Gymraeg. Nododd 15% gymhellion ariannol, dewisodd 16% gymorth a chyfarwyddyd ymarferol, a'r mwyafrif llethol 59% alw cwsmeriaid am yr un mesur a fuasai'n fwyaf tebygol o gynhyrchu defnydd o'r Gymraeg yn eu busnesau.

7.Mae ystadegau FfBB yn dangos yn eglur y bydd busnes yn ymateb yn fwy i gwsmeriaid nag y gwna i ddeddfwriaeth, ac felly bydd cynnydd yn y galw yn arwain at ddefnydd ehangach o'r iaith Gymraeg.

8.Mae angen bod dialog yn well ynglŷn â'r defnydd hyd yma o'r Gymraeg mewn busnes, am fod busnesau bach yn aml yn cyfeirio at broblemau ymarferol neilltuol parthed y gallu i weithredu'n ddwyieithog, gan gynnwys dod o hyd i staff dwyieithog. Byddwn yn parhau i weithio mewn modd cadarnhaol â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac yr ydym wedi cefnogi'r dull y maent wedi'i fabwysiadu ynglŷn ag ymwneud â, a chefnogi busnesau bach gyda'r defnydd o'r Gymraeg, i ba bynnag raddau y mae'r busnes bach yn teimlo sy'n briodol. Mae'n ymddangos bod llawer o waith i'w wneud eto er mwyn manteisio ar ewyllys da ac adeiladu ar y defnydd o'r Gymraeg sy'n digwydd eisoes mewn busnesau.

9.Ar ôl dweud hyn, mae hi wedi dod i sylw FfBB nad oes gan fentrau Iaith rôl i'w chwarae bellach yn natblygiad dwyieithrwydd oddi mewn i fusnes. Bellach gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw ymwneud y sector preifat. Yn draddodiadol, mae Mentrau Iaith wedi bod yn cynorthwyo wrth ddarparu cynhaliaeth i fusnesau, er enghraifft siarad yn nigwyddiadau a gweithdai cynnal busnes, a gweithio gyda busnesau unigol. Gellir dadlau bod y Mentrau Iaith mewn safle llawer cryfach i ehangu rôl busnesau lleol o ddwyieithrwydd na Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

10.Mae Mentrau Iaith yn gweithio oddi mewn i gymunedau pob Awdurdod Lleol, ac mae ganddynt gysylltiadau cryf â busnesau lleol, a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn BBaCh. Tra bod gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg rôl i'w chwarae ar lefel Cymru, yn delio â chwmnïau megis Tesco ac Aldi. Gellir dadlau bod y Mentrau Iaith llawer yn well ar gyfer delio â BBaCh lleol.

11Bydd y Grant Busnes oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn dod i ben ar ôl Mawrth 09. Bu'r grant hwn yn gymorth i fusnesau i ehangu dwyieithrwydd. Mae FfBB yn bryderus ynglŷn â pha mor gyflym a thawel y mae'r grant hwn wedi'i ddiddymu. Roedd y grant hwn yn helpu yn helpu busnesau gyda chost arwyddion a defnyddiau i fyny at £1000 o ran gwerth. Mae hwn wedi bod bob amser yn grant poblogaidd, er gwaethaf y ffaith nad oedd cyfran sylweddol o fusnesau yn ymwybodol o'i fodolaeth. Buasai'r grant hwn o fudd i BBaCh, yn enwedig adeiladau manwerthu, sy'n weladwy ar hyd trefi a phentrefi ledled Cymru. Gallai'r grant, petai'n cael y gefnogaeth briodol, ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes. Buasai hyn, ynghyd â chymorth ymarferol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Mentrau Iaith,yn annog BBaCh i fabwysiadu dwyieithrwydd.

12.Dylai busnesau sy'n mynd at raglen Cymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B) Llywodraeth Cymru gael eu hysbysu am y cymorth sydd ar gael iddynt i ehangu dwyieithrwydd. Yn y gorffennol, ni wnaed busnesau yn hysbys am y cymorth a oedd ar gael. Yn aml, buasai busnesau a oedd yn cychwyn, yn prynu arwyddion

Saesneg-yn-unig heb sylweddoli, wrth ddefnyddio'r Grant Busnesau, na fuasai'n costio'n ychwaneg i brynu arwyddion dwyieithog. Mae busnesau'n aml yn anghofio am yr iaith Gymraeg, nid am eu bod yn erbyn yr iaith, ond am nad yw'n brif flaenoriaeth wrth sefydlu busnes. Dylai ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes fod yn rhan o brif ffrwd cyngor busnes er mwyn sicrhau bod busnesau yn ymwybodol o fuddion dwyieithrwydd a'r cymorth sydd ar gael.

13.Buasem yn croesawu ymchwil i fuddion economaidd dichonol defnyddio'r Gymraeg mewn BBaCh; mae tystiolaeth anecdotaidd wedi bod fod y defnydd o'r Gymraeg yn gallu hybu busnes, ond nid oes unrhyw ystadegau cyfredol sy'n profi ei bod hi'n fuddiol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes. Mae'r ystadegau sydd ar gael flynyddoedd ar ei hôl hi. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif am ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes, yna mae angen tystiolaeth i amlygu'r fantais i fusnes ac felly hybu cymhelliad parthed dwyieithrwydd mewn busnes.

14.Yn sgìl y cyfle i drafod y materion hyn gyda'r Gweinidog, cawsom ein calonogi gan y sicrhad a roddwyd na fydd BBaCh yn cael eu gorfodi trwy ddeddfwriaeth i weithredu'n ddwyieithog. Mae FfBB yng Nghymru yn edrych ymlaen at weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn dod o hyd i ddulliau i annog Cymraeg mewn Busnes.